OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 1503 (Cy. 198)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Y Drenewydd i Lanymynech, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Mehefin 2012* |
| *Yn dod i rym* | *18 Mehefin 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[1] a phob pŵer galluogi arall[2], yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mehefin 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Y Drenewydd i Lanymynech, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 18 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A483 yn Sir Powys rhwng y Drenewydd a Llanymynech, a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Mehefin 2012

*G R Morgan*
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru

## YR ATODLEN

1. Abbey Bank i Crowther Hall - Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2962, i ganolbwynt ei chyffordd â'r U2215.

2. Cylchfan Sarn-y-bryn-caled i Gylchfan Tal-y-bont- Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o fynedfa ac allanfa ogleddol cylchfan yr A490, i fynedfa ac allanfa ddeheuol cylchfan yr A458.

3. Tycoch - Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir The Gro, Llanymynech, i ganolbwynt ei chyffordd â'r U2229.

4. Wernllwyd - Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Brithdir Isaf, i ganolbwynt ei chyffordd â'r U2447.

5. Y Wern i Maerdy Bridge – Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2217, i ganolbwynt ei chyffordd â'r B4393.

6. Trwsllewellyn i Luggy Bridge – Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2446, i ganolbwynt ei chyffordd â'r U2634.

7. Penarth i Abermiwl – Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2647, i ganolbwynt ei chyffordd â'r B4386.